OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2014 No. 2693

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Digolledu) (Cymru) (Rhif 2) 2014

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Digolledu) (Cymru) (Rhif 2) 2014 a deuant i rym ar 7 Tachwedd 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Atodlen 2" ("*Schedule 2*") yw Atodlen 2 i Orchymyn 1995;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

ystyr "Gorchymyn 1995" ("*the 1995 Order*") yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995(**1**); ac

ystyr "Gorchymyn y Weithdrefn Rheoli Datblygu" ("*the DMPO*") yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(**2**).

(**1**) O.S. 1995/418.
(**2**) O.S. 2012/801 (Cy. 110) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2013/755 (Cy. 90). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.